**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced**

515/51

**ASTUDIO'R CYFRYNGAU – ME5**

**Diwydiannau'r Cyfryngau sy'n Newid**

P.M. DYDD LLUN, 19 Mehefin 2006

(1½ awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **ddau** gwestiwn.

**Ni** ddylech ateb mwy nag un cwestiwn o unrhyw adran.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 50 marc yr un ar gael am bob cwestiwn.

Asesir ymgeiswyr am eu gallu i gyfathrebu'n ysgrifenedig.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn.*

*Ni ddylech ateb mwy nag* **un** *cwestiwn o unrhyw adran.*

## ADRAN A

## TELEDU

**1.** I ba raddau y cytunwch fod llwyddiant sianelau teledu'n dibynnu ar eu hamserlennu *(scheduling)*?

**2.** Ym mha ffyrdd y mae teledu Prydeinig yn cyrraedd cynulleidfa fyd-eang?

## ADRAN B

## RADIO

**3.** Gan gyfeirio at unrhyw orsaf radio a astudiwyd gennych, archwiliwch y ffyrdd y mae'n hyrwyddo ei rhaglenni i wrandawyr.

**4.** Archwiliwch sut mae'r rhai sy'n amserlennu radio *(radio schedulers)* yn darparu ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd.

## ADRAN C

## FFILM A SINEMA

**5.** I ba raddau y credwch fod y system bresennol o ddosbarthu ffilmiau *(film classification)* yn effeithiol?

**6.** Pa mor bwysig yw marchnata a hyrwyddo i lwyddiant masnachol ffilm? Cyfeiriwch at o leiaf **ddwy** enghraifft yn eich ateb.

## ADRAN CH

## Y DIWYDIANT CERDDORIAETH

**7.** Trafodwch effaith *(impact)* y technolegau newydd ar gynulleidfaoedd cerddoriaeth.

**8.** "Cylchgronau yw'r ffordd orau i hyrwyddo band." I ba raddau y cytunwch â'r datganiad hwn? Dylech gyfeirio at o leiaf **ddau** fand gwahanol yn eich ateb.

## ADRAN D

## PAPURAU NEWYDD

**9.** Sut yr esboniwch boblogrwydd papurau newydd lleol? Cyfeiriwch at o leiaf **un** papur lleol yn eich ateb.

**10.** Sut mae papurau newydd yn anelu at ddenu darllenwyr? Cyfeiriwch at o leiaf **ddau** bapur newydd yn eich ateb.

## ADRAN DD

## CYLCHGRONAU

**11.** Pam mae dyluniad *(design)* a gosodiad *(layout)* mor bwysig i gylchgronau? Dylech gyfeirio at o leiaf **ddau** gylchgrawn gwahanol yn eich ateb.

**12.** I ba raddau mae cylchgronau'n cadarnhau stereoteipiau o **naill ai** oedran **neu** rywedd *(gender)* neu ethnigrwydd?

## ADRAN E

## HYSBYSEBU

**13.** Pa strategaethau y mae hysbysebwyr yn eu defnyddio i farchnata cynhyrchion i bobl yn eu harddegau? Cyfeiriwch at enghreifftiau.

**14.** Cymharwch y technegau a ddefnyddir mewn hysbysebu masnachol ac elusennol. Cyfeiriwch at hysbysebion penodol yn eich ateb.